# Ysgol Dyffryn Aeron

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | **Athro/Athrawes  Dysgu Sylfaen** |
| **Dyddiad Cau**: | 30/04/25 |
| **Cyfweliad :** | 09/05/25 |
| **Rheolwr llinell:** | Pennaeth |
| **Yn gyfrifol am:** | Cynorthwywyr Addysgu o fewn y dosbarth |
| **Math o Gytundeb:** | Llawn Amser |
| **Hyd y cytundeb:** | Parhaol |
| **Graddfa Cyflog:** | Prif Raddfa Cyflog - £30,742 - £47,340 pro rata |
| **Lefel Datgeliad:** | Uwch |
| **Diben y Swydd:** | Ymgymryd â dyletswyddau Athro yn unol â Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol, y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth a deddfwriaeth addysgol gyfredol arall.<br>**Dylech fod:-**<br>• yn athro/athrawes dosbarth rhagorol/ ragorol ac egnïol gyda disgwyliadau uchel ar gyfer pob dysgwr, yn academaidd ac yn gymdeithasol<br>• yn deall y pwysigrwydd o'r cylch Marcio, Cynllunio ac Addysgu er mwyn sicrhau profiadau gwerthfawr i bob dysgwr<br>• â gwybodaeth gadarn am y Cwricwlwm i Gymru a'r gallu i gymell ac ysbrydoli y dysgwyr<br>• yn barod i chwarae rhan weithredol ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol, gan gynnwys clybiau a gweithgareddau allgyrsiol<br>• yn cymryd cyfrifoldeb dros Faes/Feysydd Dysgu a Phrofiad y cwricwlwm<br>• â dealltwriaeth gadarn o T.G.Ch. fel offeryn addysgu a dysgu<br>• yn gwbl ymrwymedig i godi safonau mewn dysgu<br>• yn weithiwr proffesiynol hyblyg, trefnus a brwdfrydig iawn<br>• yn medru gweithio a chyfrannu mewn partneriaeth â thîm o gydweithwyr cefnogol<br>• yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhanddeiliaid yr ysgol<br>• yn barod i addasu ac i fod yn hyblyg. |

# Ysgol Dyffryn Aeron

## Disgrifiad Swydd

**Dyletswyddau a chyfrifoldebau**

**GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH BROFFESIYNOL**

- Meddu ar y wybodaeth a'r dealltwriaeth ddiweddaraf am ddyletswyddau a chyfrifoldebau proffesiynol athrawon a'r fframwaith statudol y maen nhw'n gweithio ynddo.
- Deall y cyd-destun polisi addysg genedlaethol yng Nghymru a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg.
- Dangos blaengarwch ac egni wrth weithredu egwyddorion Cwricwlwm i Gymru.
- Defnyddio dealltwriaeth o ddisgwyliadau, trefniadaeth ac addysgeg y camau cynnydd fel sail i'w hymarfer a'u cynllunio.
- Deall y ffactorau allweddol sy'n effeithio ar ddysgu a lles plant a phobl ifanc.
- Parhau i gaffael y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddiweddaraf mewn perthynas â meysydd cwricwlwm a'r addysgeg berthnasol i'w defnyddio fel sail i'w hymarfer.
- Deall yr angen i wella sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ar draws y cwricwlwm.
- Deall ADY er mwyn bodloni amrywiol anghenion dysgwyr.

**Addysgu**

- Sefydlu a chynnal amgylcheddau dysgu effeithiol, lle mae pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel a hyderus.
- Dysgu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol a disgwyliedig sy'n berthnasol i anghenion y dysgwr, gan wneud defnydd priodol o'r canllawiau cenedlaethol perthnasol.
- Cynnig darpariaeth wedi'i phersonoli yn effeithiol wrth addysgu, gan gynnwys rhoi ystyriaeth ymarferol i amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant.
- Herio achosion o ragfarnu, stereoteipio, bwlio ac aflonyddu, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r ysgol.
- Dysgu gwersi neu gyfresi o waith ag iddynt strwythur clir fel bod pob dysgwr yn deall yr amcanion dysgu arfaethedig, ac yn eu bodloni.
- Defnyddio strategaethau addysgu priodol sy'n datblygu gallu pob dysgwr i weithio ar y cyd ac yn annibynnol.
- Datblygu ar amrywiol brofiadau, cyflawniadau a diddordebau'r dysgwyr i'w helpu i wneud cynnydd.
- Rheoli'r amser addysgu a dysgu yn effeithiol.
- Rheoli'r amgylchedd dysgu ffisegol, yr offer, deunyddiau, testunau ac adnoddau eraill yn ddiogel ac effeithiol.
- Defnyddio strategaethau addysgu priodol i sicrhau ymddygiad cadarnhaol.
- Defnyddio strategaethau addysgu priodol i hyrwyddo lles plant a phobl ifanc.
- Defnyddio strategaethau addysgu priodol i hyrwyddo cynnydd a deilliannau da i ddysgwyr dros gyfnod estynedig o amser.
- Defnyddio TGCh yn effeithiol wrth addysgu a dysgu.

- Annog dysgwyr i wneud cynnydd annibynnol drwy ddarparu gweithgareddau neu gyfleoedd allgyrsiol i ddatblygu y tu allan i oriau ysgol, sy'n ategu'r gwaith a wneir yn yr ysgol, ac yn ymestyn arno.
- Cydweithio ag athrawon a chydweithwyr eraill, gan gynnwys asiantaethau allanol i wella dysgu a lles y disgyblion y maen nhw'n eu haddysgu.
- Hyrwyddo dealltwriaeth dysgwyr o natur ddwyieithog Cymru a datblygu eu sgiliau dwyieithog fel sy'n briodol

**CYNLLUNIO A GOSOD TARGEDAU:**

- Defnyddio amrywiaeth o strategaethau monitro ac asesu, gan gynnwys asesiadau ffurfiannol a chrynodol, i werthuso cynnydd y dysgwyr tuag at gyflawni eu hamcanion dysgu, a defnyddio'r wybodaeth i wella eu gwaith cynllunio ac addysgu eu hunain.
- Bodloni'r gofynion a'r trefniadau asesu ar gyfer y pynciau/meysydd cwricwlwm a chyfnodau y maen nhw'n eu dysgu, gan gynnwys paratoi disgyblion ar gyfer arholiadau a chymwysterau cyhoeddus.
- Defnyddio technegau monitro ac asesu i nodi a chefnogi dysgwyr, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol; dysgwyr sy'n fwy abl a thalentog, dysgwyr sy'n gweithio ar lefel is na'r disgwyl ar gyfer eu hoed; dysgwyr sy'n methu â chyrraedd eu potensial; a dysgwyr ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.
- Cynnwys dysgwyr yn y gwaith o osod targedau ac wrth bwyso a mesur eu perfformiad a'i werthuso.
- Monitro a chofnodi cynnydd a chyflawniadau dysgwyr i ddarparu tystiolaeth o ystod eu gwaith, eu cynnydd a'u cyrhaeddiad dros gyfnod o amser, gan ystyried cyfranogiad a safbwynt y dysgwr. Rhoi adborth cywir ac adeiladol i ddysgwyr ar eu cryfderau, eu gwendidau, eu cyrhaeddiad, eu cynnydd a'r meysydd i'w datblygu, gan gynnwys cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella. Rhoi adborth amserol, cywir ac adeiladol i gydweithwyr, rhieni a gofalwyr ar gyrhaeddiad dysgwyr, eu cynnydd, a'r meysydd i'w datblygu, gan ddefnyddio cofnodion ategol a thystiolaeth arall.

**DATBLYGIAD STAFF**

- Cymryd rhan yn rhaglen datblygu staff trwy fod yn rhan o'r trefniadau ar gyfer hyfforddiant pellach a datblygiad proffesiynol.
- Parhau gyda datblygiad personol yn y meysydd perthnasol gan gynnwys gwybodaeth am y pwnc a dulliau addysgu.
- Ymrwymo'n weithredol i'r adolygiadau sy'n rhan o broses Rheoli Perfformiad yr ysgol.
- Defnyddir rhinweddau arferion proffesiynol er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar arferion eraill
- Dangos cefnogaeth a dealltwriaeth o gyfrifoldebau'r Uwch Dîm Rheoli er mwyn gwreiddio ethos a gweledigaeth yr ysgol.

Tra bod pob ymdrech wedi'i wneud i egluro'r prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd, efallai na fydd pob tasg unigol yn cael eu nodi.

Bydd disgwyl i weithwyr cydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol gan reolwr i ymgymryd â gwaith ar lefel debyg nas pennir yn y disgrifiad swydd.

# Ysgol Dyffryn Aeron

Mae disgwyl i weithwyr fod yn gwrtais tuag at weithwyr eraill a darparu amgylchedd croesawgar i ymwelwyr a phobl sy'n galw dros y ffôn.

Mae'r disgrifiad swydd yma yn gyfredol ar hyn o bryd ar y dyddiad a ddangosir, ond drwy ymgynghori â chi, fe ellir ei newid gan y Pennaeth neu, yn ystod trafodaethau adolygiadau Rheoli Perfformiad, gan eich Rheolwr Llinell i adlewyrchu neu i ragweld newidiadau yn y swydd sy'n gymesur â graddfa a theitl y swydd. Bydd angen trafod y disgrifiad swydd yn flynyddol a'i lofnodi .

Bydd yr ysgol yn ymdrechu i wneud unrhyw addasiadau rhesymol i'r swydd a'r amgylchedd gwaith i alluogi mynediad i gyfleoedd cyflogaeth i ymgeiswyr anabl.

| | |
|---|---|
| **Atebolrwydd** | Pennaeth a'r Corff Llywodraethol. |

## Manyleb Bersonol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Y cymwysterau academaidd/proffesiynol/ technegol/galwedigaethol (gan gynnwys Lefel y cymwysterau) sy'n ofynnol ar gyfer y swydd** | Athro/ Athrawes Cymwysedig /Gymwysedig<br><br>Cymhwyster / Gradd berthnasol | | | |
| **Lefel y sgiliau ieithyddol sy'n ofynnol ar gyfer y swydd**<br><br>**(Gweler y canllawiau iaith a'r ceri \| net )** | Gweler y tabl isod.<br><br>**Nodyn: **<u>Bydd gofyn</u>** i'r ymgeisydd llwyddiannus ddysgu'r Gymraeg o fewn 2 flynedd o gael ei benodi os nad ydyw eisoes yn siarad Cymraeg* | | | |
| | **Gwrando/ Siarad** | **Darllen** | **Ysgrifennu** | |
| **Cymraeg (Lefelau Fframwaith ALTE)** | 5 | 5 | 5 | **Hanfodol*** |
| **Saesneg (Lefelau Fframwaith ALTE)** | 5 | 5 | 5 | **Hanfodol** |
| **Sgiliau ymarferol/personol sy'n ofynnol ar gyfer y swydd** | Mae'r gallu i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd yma.<br><br>• Bod yn frwdfrydig dros addysg disgyblion a chyfrannu'n llawn i fywyd a gwaith yr ysgol<br>• Ymroi yn llwyr i gynnig y profiadau gorau i ddysgu, lles a diogelwch y disgyblion | | | |

| | |
|---|---|
| | • Bod yn onest ac yn ddibynadwy gan barchu cyfrinachedd<br>• Bod yn hyderus, gydag agwedd bositif, frwdfrydig<br>• Meddu ar fedrau rhyngbersonol da<br>• Gallu cyd-weithio'n effeithiol mewn tîm<br>• Bod yn ymarferydd ystafell ddosbarth ardderchog<br>• Gallu hyrwyddo ymddygiad da mewn modd cadarnhaol<br>• Ymchwilio i ymarfer gorau<br>• Defnyddio llais y dysgwyr i ddatblygu Addysgu a Dysgu. |
| **Profiad sy'n ofynnol ar gyfer y swydd** | • Addysgu llwyddiannus gan sicrhau profiadau positif i'r dysgwyr<br>• Ymroddiad i godi safonau addysgu a dysgu<br>• Asesu ac olrhain cynnydd gan ddefnyddio'r wybodaeth er mwyn cynnig addysg bersonol a pherthnasol i'r dysgwyr. |
| **Hyfforddiant/addysg y mae'n ofynnol eu cyflawni/mynd ati i'w cyflawni ar gyfer y swydd** | • Cymryd rhan yn rhaglen dysgu proffesiynol yr ysgol<br>• Ymrwymo'n llawn i gylch rheoli perfformiad er mwyn gosod targedau datblygu'n broffesiynol.<br><br>Parhad |
| **Sgiliau/cymwysterau dymunol** | • Yn meddu ar fedrau Cymhwysedd Digidol cryf iawn er mwyn cynnal profiadau digidol o'r radd uchaf<br>• Arwain ar Faes Dysgu a Phrofiad a/neu chynghorau amrywiol o fewn yr ysgol<br>• Y gallu i rwydweithio gydag ysgolion eraill wrth ddatblygu Cwricwlwm i Gymru<br>• Medru cynnig profiadau allgyrsiol i'r dysgwyr<br>• Ymgysylltu â'r gymuned er mwyn meithrin perthynas bositif gan sicrhau bod yr ysgol yn rhan annatod o'r gymuned. |